# Nodiadau ar ymuno ag adran 50:50 (lleihau cyfraniadau CPLlL dros dro)

**Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen.**
**NI DDYLID llenwi'r ffurflen hon os nad ydych chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) eto.**

Llenwch y ffurflen hon os ydych chi'n dymuno ymuno ag adran 50:50 o'r CPLlL. Pan fydd y ffurflen wedi cael ei phrosesu gan adran gyflogau eich cyflogwr, fe fyddwch chi'n dechrau cronni hanner eich buddion pensiwn yn yr adran 50:50 o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael. Er mwyn bwrw ymlaen â'ch dewis, fe fydd yn rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a'i **dychwelyd i'ch cyflogwr.**

## Sut mae'r adran 50:50 yn gweithio?

Mae yna ddwy adran yn y CPLlL. Mae yna'r adran arferol, a elwir yn brif adran ac mae yna'r adran 50:50. Yn y brif adran, rydych yn talu cyfraniadau llawn ac rydych yn cronni eich pensiwn ar y gyfradd lawn. Yn yr adran 50:50, rydych yn dewis talu hanner eich cyfraniadau llawn ac rydych yn cronni hanner eich pensiwn llawn yn ystod y cyfnod hwn. Os byddwch chi'n ymuno ag adran 50:50, bydd gennych chi'r un yswiriant marw yn y swydd ac yswiriant salwch ag aelod sy'n talu cyfraniadau pensiwn ar gyfradd lawn yn y brif adran.

Os oes gennych chi fwy nag un swydd, gallwch ddewis ymuno ag adran 50:50 yn un o'r swyddi, yn rhai o'r swyddi, neu ym mhob swydd. Os ydych chi yn y CPLlL gyda mwy nag un cyflogwr, mae'n rhaid llenwi ffurflen ar wahân a'i dychwelyd i bob cyflogwr os hoffech chi ymuno â'r adran 50:50.

## Pa mor hir alla o aros yn adran 50:50?

Bwriedir i'r adran 50:50 fod yn ddewis tymor byr i'ch helpu yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Nid oes terfyn amser i ba mor hir allwch chi aros yn yr adran 50:50. Fodd bynnag, yn rhan o'r broses gofrestru awtomatig, bydd eich cyflogwr yn eich rhoi yn ôl yn y brif adran bob tair blynedd ar y gyfradd gyfrannu lawn. Os ydych eisiau aros yn yr adran 50:50, bydd angen i chi lenwi ffurflen 50:50 newydd. Cofiwch ddychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi i adran gyflogau eich cyflogwr.

Os nad ydych yn derbyn tâl oherwydd salwch neu anaf, bydd eich cyflogwr yn eich symud yn ôl i brif adran y cynllun pensiwn. Byddwch yn cronni buddion pensiwn ar y gyfradd lawn, er na fyddwch yn talu cyfraniadau pensiwn pan nad ydych yn derbyn tâl.

Fe allwch ddewis symud o'r adran 50:50 i'r brif adran ar unrhyw adeg. Er mwyn ailymuno â'r brif adran, mae'n rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'ch cyflogwr. Gallwch ddefnyddio ffurflen **ailymuno â'r brif adran** i gadarnhau eich dewis. Byddwch yn cael eich symud i'r brif adran o'r cyfnod tâl nesaf posibl wedi i'ch cyflogwr dderbyn eich ffurflen ddewis wedi ei llofnodi.

## Sut bydd fy mhensiwn yn cymharu dan yr Adran 50:50?

| (Enghraifft yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy blynyddol o £24,000) | Prif adran | Adran 50:50 |
|---|---|---|
| Cyfraniad gros blynyddol: | £1,392 (5.80%) | £696 (2.90%) |
| Pensiwn blynyddol wedi'i gronni: | £489.80 (1/49fed) | £244.90 (1/98fed) |
| Yswiriant marw yn y swydd: | £72,000<br>(3 x £24,000) | £72,000<br>(3 x £24,000) |

## A fydd dewis yr adran 50:50 yn effeithio ar y cyfraniadau ychwanegol rwy'n eu talu ar hyn o bryd?

Os ydych chi'n talu cyfraniadau ychwanegol neu'n ystyried talu cyfraniadau ychwanegol yn y dyfodol, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd i gael gwybod mwy o ran sut bydd hyn yn effeithio ar yr adran 50:50.

## A yw fy nghyflogwr yn gallu gofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r Adran 50:50?

Nid yw eich cyflogwr yn gallu gofyn i chi neu eich gorfodi i ymuno â'r adran 50:50. Os ydych yn teimlo bod eich cyflogwr yn eich annog i ymuno â'r adran 50:50, rhowch wybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Gallwch wneud hyn trwy eu gwefan:
**www.thepensionsregulator.gov.uk/cy**

# Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol
# Ymuno ag adran 50:50 (lleihau cyfraniadau CPLlL dros dro)

**Manylion yr Aelod:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw llawn:** | | | |
| **Rhif YG:** | | **Dyddiad geni:** | |
| **Cyfeiriad:** | | | |
| | | **Cod post:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | **Rhif Ffôn:** | |

**Dewis Iaith:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg** | ☐ | **Saesneg** | ☐ | **Dwyieithog** | ☐ |

**Dewis o ran Cyfathrebu:** Dymunaf dderbyn **POB** gohebiaeth yn y dyfodol yn (rhowch ✓ yn y blwch perthnasol i chi i ddangos eich dewis) **(Dewiswch UN opsiwn yn unig)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Electronig**<br>*Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hunanwasanaeth Aelodau i dderbyn gohebiaeth yn electronig:<br>**https://mss.clwydpensionfund.org.uk** | ☐ | **Papur** | ☐ |

**Manylion eich cyflogaeth:** (cadarnhewch fanylion y swydd yr hoffech symud i adran 50:50 ynddi. Os hoffech chi symud i adran 50:50 mewn mwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar gyfer pob un o'ch swyddi).

| | |
|---|---|
| **Cyflogwr:** | |
| **Teitl y Swydd:** | |
| **Cyfeirnod cyflog:** | |
| **Cyfeirnod swydd (A, B, C ac ati):** | |

**Datganiad:**

Ar ôl darllen y nodiadau canllaw, rwy'n dymuno ymuno ag adran 50:50 o'r CPLlL o'r cyfnod tâl nesaf sydd ar gael. Rwy'n deall y byddaf yn talu hanner fy nghyfraniadau llawn er mwyn cronni hanner fy muddion pensiwn yn ystod y cyfnod hwn. Gallaf fynd yn ôl i brif adran y CPLlL ar unrhyw adeg drwy roi gwybod i fy nghyflogwr yn ysgrifenedig. Byddaf wedyn yn dechrau cronni buddion llawn o'r cyfnod talu nesaf sydd ar gael. Bydd fy nghyflogwr yn fy ail-gofrestru â phrif adran y CPLlL bob tair blynedd oherwydd y gofynion Cofrestru Awtomatig. NID yw fy nghyflogwr wedi gofyn i mi na'm gorfodi i ymuno ag adran 50:50 o'r CPLlL. Rwy'n deall fod y dewisiadau yr wyf yn eu gwneud nawr yn bwysig ar gyfer cynllunio fy ymddeoliad ac os byddaf yn ailymuno â'r adran 50:50, byddaf yn derbyn llai o incwm pan fyddaf yn ymddeol, o'i gymharu â phe bawn i'n aelod o brif adran y CPLlL.

**Fe fyddaf yn dychwelyd y ffurflen hon i fy nghyflogwr.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eich Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |